

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Gorffennaf 1af yn Festri Glanrafon. Yn bresennol oedd Gethin Morris (Cadeirydd), Alwyn Roberts, Gwenda Morris, Eilir Rowlands, Gwenda Evans, Eifion Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tina Davies, Alwyn Jones a Maldwyn Jones.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

## Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

### Cynghorwyr newydd.

Roedd y cler wedi derbyn cadarnhad gan Gyngor Gwynedd na dderbyniwyd cais am etholiad ar gyfer y seddi gwag ac y byddai'n bosib i'r Cyngor symud ymlaen i gyfethol aelodau newydd. Cytunwyd i drafod y mater ymhellach ym mis Medi.

## Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### a) Cyngor Gwynedd

i) Derbyniwyd cadarnhad bod y dyddiad cau i yrru sylwadau ar gyfer y 'Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011 - 2026)' wedi cael ei newid i ddiwedd Gorffennaf. Yn anffodus gan nad oedd y Cyngor wedi derbyn y llythyr gwreiddiol a oedd yn eu gwahodd i yrru tystiolaeth ynglŷn â'r angen tai yn ein hardal nid oedd digon o amser iddynt gasglu tystiolaeth benodol drwy holiadur ayyb. Cytunwyd i'w cynghori am hyn a'u hysbysu o'r trafodaethau diweddar a fu rhwng y Cyngor a nifer o gyplau ifanc lleol a oedd yn edrych i godi cartrefi fforddiadwy yn yr ardal. Cytunwyd i bwysleisio bod hi'n hollol hanfodol eu bod yn caniatáu tai fforddiadwy yn ein hardaloedd cefn gwlad i sicrhau dyfodol ein cymunedau.

### b) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Rhestr cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a'r Awdurdod llawn ar gyfer 2014-15.

ii) Llythyr o ddiolch am fynychu eu cyfarfod ym mis Mehefin.

### c) Ombwdsmon.

i) Chopi o'r Adroddiad Blynyddol 2013-14.

## Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

C14/0491/04/LL - Codi modurdy/gweithdy domestig ar wahân. Pencefn, Sarnau.

C14/0390/04/LL - Caniatâd dros-dro ar gyfer lleoli mast 80.20 medr i fesur gwynt. Tir ger Bodelith Isaf, Llandderfel.

C14/0557/04/LL – Dymchwel estyniad cefn presennol a chodi estyniad deulawr i gefn yr annedd. Byrgoed, Llandderfel.

C14/0556/04/CC - Gwaith torri a thocio coed - Gorchymyn Gwarchod Coed. Cysgod y Coed, Llanfor.

Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau arwahan i'r cais i osod mast ar dir ger Bodelith Isaf oherwydd pryderon am yr effaith y byddai cynllun fel hyn yn ei gael ar yr ardal o'u gwmpas.

## **Materion Ariannol.**

### **Datganiad Blynyddol.**

Cafwyd cadarnhad gan UHY Hacker Young bod y Datganiad Blynyddol yn gywir. Cytunwyd i gymeradwyo'r Datganiad ac arwyddwyd Adran 3 gan y Cadeirydd.

Cytunwyd i dalu cyflog y clercc (Ebrill – Mehefin)

## **Materion lleol.**

### **Scottish Power.**

Roedd contractwyr torri coed Scottish Power wedi cysylltu gyda'r clercc i ofyn am ganiatâd i dorri canghennau dwy goeden yng nghae chwarae Llandderfel gan eu bod yn tyfu yn rhy agos i'r gwifrau trydan. Cytunwyd i roi caniatâd iddynt wneud y gwaith angenrheidiol.

### **Wal gynnal mynwent Llanfor.**

Mynegwyd pryderon am gyflwr y wal a chytunwyd i wneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd, CADW a'r cwmni yswiriant rhag ofn bydd angen ei atgyweirio.

### **Wal mynwent Frongoch.**

Roedd un o'r trigolion lleol wedi cysylltu â'r clercc yn glân â choeden a oedd yn pwyso ar wal y fynwent. Cytunwyd i ofyn i Alwyn Jones archwilio'r safle gyda Gethin Morris i weld pa waith oedd angen ei wneud.

### **Mynwent Llandderfel.**

Yn dilyn archwiliad o'r fynwent yn ddiweddar cafwyd adroddiad gan y clercc:-

- i) Roedd nifer o feddi wedi suddo ac er mai cyfrifoldeb y teuluoedd eu hunain oedd eu mewnlenni cytunwyd o ran iechyd a diogelwch efallai y byddai'n well i'r Cyngor drefnu i wneud y gwaith. Cytunwyd y dylai'r Cyngor osod arwydd wrth fynedfa'r fynwent i egluro hyn i'r teuluoedd.
- ii) Gwrychoedd y fynwent - gofynnwyd i'r clercc ysgrifennu i berchennog Penllan i ofyn iddynt i docio ochr y coed a oedd yn tyfu ar ochr y ffordd i fyny i'r fynwent. Gofynnwyd i'r clercc wneud ymholiadau yn glân â thorri'r gwrych o gwmpas y fynwent ei hun.
- iii) Cytunwyd bod angen trafod ymhellach creu polisi yn glân â gosod potiau blodau, llwyni ayyb o gwmpas y beddi. Roedd hyn yn fater sensitif iawn ond roedd angen sicrhau bod rheolau mewn lle i sicrhau bod y gofalwr yn gallu torri'r glaswellt a diogelwch y rhai a oedd yn ymweld â'r fynwent.